OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1075

## Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000

**Cosbi**

**4.**—(1) Bydd person a geir yn euog o dramgwydd o dan Erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth cyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, os y bu i'r achos gael ei ddwyn yng Nghymru yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy o ddim mwy na'r swm a bennir yn yr eitem briodol yng ngholofn 4 o'r Atodlen;

(b) ar gollfarn ar inditiad, i ddirwy.

(2) Bydd person a geir yn euog o dramgwydd o dan Erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth cyfatebol mewn gorchymyn sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, os y bu i'r achos gael ei ddwyn yng Nghymru yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, wedi'i seilio ar doriad o, neu fethiant i gydymffurfio ag—

(a) Erthyglau 19a.2, 20.1, 20a neu 21c.2 o Reoliad 2847/93 hefyd yn agored—

(i) i fforffedu unrhyw rwyd neu offer pysgota arall y cyflawnwyd y dramgwydd mewn cysylltiad ag ef, neu a ddefnddiwyd ar gyfer cyflawni'r tramgwydd, neu a ddefnyddiwyd ar gyfer dal unrhyw bysgod arall y cyflawnwyd y tramgwydd mewn cysylltiad â hwy; a

(ii) i fforffedu unrhyw bysgod y cyflawnwyd y dramgwydd mewn cysylltiad â nhw, neu, ar gollfarn ddiannod yn unig, i ddirwy o ddim mwy na gwerth unrhyw bysgod y cyflawnwyd y dramgwydd mewn cysylltiad â nhw; neu

(b) Erthyglau 6, 8.1, 9, 11, 12, 13 neu 17.2, Erthyglau 19b a 19c neu Erthyglau 19e, 20.2, 28c (mewn perthynas â'r gofynion ynglŷn â choflyfr a nodi dalfeydd ar fwrdd y cwch) neu 28d o Reoliad 2847/93 hefyd yn agored i fforffedu unrhyw bysgod y cyflawnwyd y tramgwydd mewn cysylltiad â nhw, neu i ddirwy o ddim mwy na gwerth y pysgod y cyflawnwyd y tramgwydd mewn cysylltiad â nhw.

(3) Bydd person a geir yn euog o dramgwydd o dan Erthygl 3(2) o'r Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth cyfatebol sy'n ymestyn i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig, os y bu i'r achos gael ei ddwyn yng Nghymru yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, hwn yn agored —

(a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy o ddim mwy na £50,000;

(b) ar gollfarn ar inditiad, i ddirwy.